**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod**
**Cydraddoldeb rhwng y rhywiau a'r gyllideb**
**Dydd Gwener 22 Medi 2023, drwy gyfrwng Zoom, 10:00-11:00**

***Yn bresennol:***
*Siân Gwenllian AS (Cadeirydd)*
*Carolyn Thomas AS*
*Sioned Williams AS*
*Claire Thomas, Ymchwil y Senedd (Siaradwr)*
*Dr Rachel Minto, Prifysgol Caerdydd (Siaradwr)*
*Sarah Thomas, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched*
*Patience Bentu, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol*
*Imogen Hopkins, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol*
*Brandon Renard, Swyddfa Sarah Murphy AS*
*Jen Ramsay, Swyddfa Paul Davies AS*
*Owen Thomas, Swyddfa John Griffiths AS*
*Abi Thomas, Plaid Cymru*
*Jane Fenton-May, Cynulliad Merched Cymru*
*Ele Hicks, Diverse Cymru*
*Megan Thomas, Anabledd Cymru*
*Aliya Iftikhar,* Cymorth i Ferched Cymru
*Tanya Harrington, Stonewall Cymru*
*Sarah Rees, Oxfam Cymru*
*Hade Turkmen, Oxfam Cymru*
*Dr Larissa Peixoto, Prifysgol Caerdydd*
*Megan Evans, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (WEN Cymru)*
*Jessica Laimann, WEN Cymru*

***Ymddiheuriadau:***
*Sarah Murphy AS*
*Llyr Gruffydd AS*
*Claire Morgan, Gofalwyr Cymru*
*Hannah Griffiths, Grŵp Cyllideb Menywod Cymru*

| | |
|---|---|
| **1** | **Ethol deiliaid swyddi**<br><br>Cafodd Siân Gwenllian AS ei hethol yn unfrydol fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod.<br><br>Cafodd sefydliad WEN Cymru ei ethol yn unfrydol fel ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod. |
| **2** | **Croeso, Ymddiheuriadau, Cyflwyniad –** Cadeirydd<br><br>Croesawodd Siân Gwenllian AS bawb i'r cyfarfod, gan nodi pob ymddiheuriad a oedd wedi dod i law. |

| | |
|---|---|
| | Dywedodd y Cadeirydd fod gan y grŵp trawsbleidiol lwyddiannau pwysig i'w dathlu, gan gynnwys y Bil ar ddiwygio'r Senedd a gafodd ei gyflwyno’n ddiweddar, ac yn benodol, y ddeddfwriaeth ar gwotâu rhywedd a fydd yn cael ei chyflwyno yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Serch hynny, taflwyd cysgod dros yr wythnos gan y newyddion ofnadwy am y penderfyniad i gau Chwarae Teg, a'r effaith y byddai’r sefyllfa hon yn ei chael ar fenywod yng Nghymru.<br><br>Mynegodd sawl aelod o’r grŵp dristwch a siom ynghylch y newyddion hwn, gan estyn eu cydymdeimlad i staff Chwarae Teg. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch effaith y penderfyniad ac ynghylch cynaliadwyedd y sector menywod yng Nghymru yn wyneb pwysau ariannol.<br><br>Roedd Sioned Williams AS wedi codi pryderon am y mater gyda’r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, gan ofyn i Lywodraeth Cymru gynnal asesiad o’r effaith y byddai cau’r sefydliad yn ei chael ar fenywod yng Nghymru. Mynegodd bryder fod y penderfyniad hwn yn rhan o duedd ehangach yn y dirwedd ariannu ar ôl Brexit, a'i bod yn bwysig monitro’r effaith benodol ar y sector cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.<br><br>Dywedodd Jessica Laimann o WEN Cymru fod y newyddion wedi syfrdanu’r sefydliad, ac estynnodd ddiolch a chydymdeimlad i dîm Chwarae Teg. Tynnodd sylw at y ffaith bod sector menywod Cymru yn wynebu heriau unigryw o ran sicrhau mynediad at gyllid. Mae ymchwil a gyhoeddwyd gan Rosa yn dangos mai dim ond 1.8 y cant o gyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd i elusennau yn 2021 oedd wedi mynd i fenywod a merched. Wrth geisio sicrhau cyllid, mae sefydliadau yng Nghymru yn aml yn wynebu rhwystrau ychwanegol yn sgil diffyg dealltwriaeth o ddatganoli.<br><br>Tynnodd Sarah Rees o Oxfam Cymru sylw at y ffaith bod Chwarae Teg wedi bod yn arwain gwaith yn y sector menywod ar graffu cyllidol a chyllidebol, a mynegodd bryder ynghylch y bwlch sydd bellach wedi’i adael yn y maes hwn. Mae’r sefyllfa o ran y capasiti a gollwyd yn ddiweddar yn y trydydd sector, sydd wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith craffu a wneir, wedi gwaethygu yn sgil y penderfyniad i gau’r sefydliad. Mae angen archwilio’r sefyllfa hon yng nghyd-destun cydraddoldeb rhwng y rhywiau, gan mai menywod sy’n gweithio yn y trydydd sector yn bennaf.<br><br>Mynegodd sawl aelod o’r grŵp bryder penodol am ddyfodol Grŵp Cyllideb Menywod Cymru, a oedd yn cael ei ddatblygu gan Chwarae Teg.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i aelodau’r panel am eu cyfraniadau. Awgrymodd y gallai'r grŵp trawsbleidiol ysgrifennu at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i ofyn am gyfarfod i drafod y pwyntiau a godwyd. Cytunodd y grŵp ar y cynnig hwnnw. |
| **3** | **Symleiddio’r broses gyllidebol**<br>Claire Thomas, Ymchwil y Senedd<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Claire Thomas, un o ymchwilwyr Ymchwil y Senedd, sy’n gweithio ar gydraddoldeb, hawliau dynol, cyfiawnder cymdeithasol a mewnfudo. Mae |

| | |
|---|---|
| | Claire yn cefnogi gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, gan gynnwys y gwaith o graffu ar y gyllideb.<br><br>Rhoddodd Claire drosolwg o'i rôl hithau a gwaith Ymchwil y Senedd, sy'n darparu cyngor diduedd a chyfrinachol i Aelodau o'r Senedd a phwyllgorau'r Senedd ac yn cyhoeddi erthyglau ymchwil yn rheolaidd, gan gynnwys cyngor arbenigol ar waith craffu ariannol.<br><br>Dywedodd fod y gyllideb yn cynnwys cynigion ar gyfer pob portffolio (sef y prif grwpiau gwariant) a chynigion gwariant manwl (sef y llinellau gwariant yn y gyllideb), yn ogystal â gwybodaeth sy'n cefnogi'r penderfyniadau sy'n sail i'r cynigion, a gwybodaeth ynghylch yr effaith ar wahanol grwpiau o bobl, a hynny fel rhan o'r asesiad effaith integredig strategol.<br><br>Gellid rhannu cylch y gyllideb flynyddol yn dri cham: y gyllideb ddrafft, cynnig y gyllideb flynyddol a chynnig y gyllideb atodol.<br><br>Yn ôl protocol proses y gyllideb, rhaid i Lywodraeth Cymru osod ei chyllideb ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor Cyllid graffu arni. Mae'r Pwyllgor yn gwneud gwaith craffu cyn y gyllideb, lle trafodir strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru, ei sefyllfa ariannu a'i blaenoriaethau, a lle gwneir gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn amrywiaeth o ffyrdd.<br><br>Rhoddodd Claire drosolwg o'r amserlen ar gyfer y gyllideb ddrafft, gan gynnwys gwaith ymgysylltu'r Pwyllgor Cyllid a'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn (Mehefin-Gorffennaf 2023); datganiad yr hydref gan Lywodraeth y DU (22 Tachwedd 2023); cyhoeddi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 (19 Rhagfyr 2023); a chyhoeddi adroddiadau'r pwyllgorau (cyn 5 Chwefror 2024). Cafodd yr amserlen ei chwtogi dros y pum mlynedd diwethaf, gan arwain at amserlenni tynn i'r pwyllgorau o ran gwneud eu gwaith craffu ar y cynlluniau gwariant manwl a welir yn y portffolios gweinidogol perthnasol.<br><br>Dywedodd Claire fod cyfle i sefydliadau trydydd sector gymryd rhan yn y broses mewn gwahanol ffyrdd. Yn y cyfnod cyn y gyllideb, gallant ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid a phwyllgorau pwnc perthnasol er mwyn nodi pa feysydd gwariant y maent yn disgwyl i'r gyllideb eu blaenoriaethau. Roedd yr amserlenni yng nghyfnod y gyllideb ddrafft yn dynn, ond byddai'n ddefnyddiol i sefydliadau nodi pa gwestiynau y byddent yn eu gofyn i'r Gweinidog.<br><br>Amlinellodd Claire nifer o adnoddau defnyddiol a ddarperir gan Ymchwil y Senedd y gellid cael mynediad atynt ar-lein. Tynnodd sylw at bwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid, o ystyried y cyfnod ariannol heriol sydd o'n blaenau, yn ogystal â chyfleoedd i ymgysylltu â phwyllgorau ar faterion cyllidol drwy gydol y flwyddyn. Daeth â'i chyflwyniad i ben drwy rannu cyngor ar ddwyn materion at sylw pwyllgor, awgrymiadau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ac enghreifftiau o arfer da. |
| 4 | **Trafodaeth a chwestiynau gan y rhai a oedd yn bresennol** |

| | |
|---|---|
| | Diolchodd y Cadeirydd i Claire am ei chyflwyniad craff, a gwahoddodd y rhai a oedd yn bresennol i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau.<br><br>Gofynnodd Sioned Williams AS am ddiweddariad ar gyllidebu ar sail rhyw, gwaith yr Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, a'r angen am fwy o ffocws ar nodweddion penodol fel rhyw yn yr asesiadau effaith integredig a gynhelir ar gyfer cyllidebau. Dywedodd Claire fod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn bwriadu gwneud gwaith dilynol ar y mater hwn maes o law.<br><br>Gofynnodd Abigail Thomas (Plaid Cymru) sut yr oedd effaith y gyllideb ar sail rhyw yn cael ei hasesu ar hyn o bryd. Dywedodd Claire fod pwyllgorau, wrth wneud eu gwaith craffu, yn defnyddio amrywiaeth o ddata a dangosyddion, gan gynnwys gan sefydliadau'r trydydd sector. |
| **5** | **Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Grŵp Menywod yn Ewrop (Cymru)**<br><br>Dywedodd Dr Rachel Minto mai'r rhesymeg y tu ôl i gynnwys y diweddariadau hyn ar agenda'r grŵp trawsbleidiol oedd monitro'r posibilrwydd y bydd Cymru yn gwyro oddi wrth safonau'r UE o ran hawliau menywod a chydraddoldeb rhwng y rhywiau, a hynny drwy fonitro'r datblygiadau diweddaraf. Yn anffodus, roedd cau Chwarae Teg yn cynrychioli datblygiad o'r fath, gan ei fod yn dangos bod cyllid Ewropeaidd wedi chware rôl mor annatod yn y frwydr dros gydraddoldeb rhwng y rhywiau yng Nghymru.<br><br>Y wybodaeth ddiweddaraf:<br><br>• Roedd Ursula von der Leyen, Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, wedi rhoi anerchiad ynghylch Cyflwr yr Undeb, gan gadw ei ffocws ar y gwaith blaenorol a wnaed ganddi ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau a thrais yn erbyn menywod.<br>• Ar gyfer yr etholiadau a gynhelir gan Senedd Ewrop ym mis Mai 2024, mae risg y bydd y dirwedd wleidyddol yn symud i'r dde, a fyddai'n arwain, o bosibl, at heriau o ran hawliau menywod, gan gynnwys mynediad at wasanaethau erthylu a gofal iechyd. Gallem hefyd weld newidiadau o ran arweinyddiaeth y Comisiwn Ewropeaidd, a allai gael effaith ar y sylw cymharol a roddir i hawliau menywod a chydraddoldeb rhwng y rhywiau.<br>• Roedd Senedd Ewrop wedi pleidleisio o blaid adroddiad ar reoleiddio puteindra yn yr UE gan y Pwyllgor ar Hawliau Menywod a Chydraddoldeb Rhwng y Rhywiau.<br>• Roedd yr Ail Gyfarwyddeb ar Fasnachu Pobl yn mynd rhagddi, gyda ffocws penodol ar fudo.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i Rachel am ei diweddariad craff, a chytunodd y grŵp i gadw'r eitem hon fel eitem reolaidd. |
| **6** | **Unrhyw fater arall**<br><br>Dyddiad y cyfarfod nesaf: 24 Tachwedd 2023 (cyfarfod ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn Erbyn Menywod a Phlant). |

| | |
|---|---|
| | |
| 7 | *Diwedd* |